

BETH YW CWMNI CYDWEITHREDOL NEU FENTER GYMDEITHASOL?

Mae Cwmni Cydweithredol (neu Fenter Gymdeithasol) yn un sy'n gweithio ar ran yr aelodau oll – y gymdeithas. Nid un person, neu ryw grŵp o bobol, sy'n elwa ond pawb. Mae'r gymdeithas oll ar ei hennill.

WHAT IS A CO-OPERATIVE COMPANY OR SOCIAL ENTERPRISE?

A Co-operative Company (or Social Enterprise) is one that works on behalf of all the members – the community. It's not an individual, or some closed group, that profits but everyone. Society as a whole benefits.

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG MENTER GYDWEITHREDOL A MENTER GYFALAFOL?

Yn y nod cymdeithasol y mae'r gwahaniaeth. Mae creu elw yn nod i'r naill fath o gwmni a'r llall. Prif gyfrifoldeb y cwmni cyfalafol yw creu budd ar gyfer y cyfranddalwyr. Prif gyfrifoldeb y cwmni cydweithredol yw creu budd ar gyfer y gymdeithas (trwy ail-fuddsoddi yn y cwmni neu gyfrannu at anghenion y gymdogaeth). Mae'r cefnogwr cyfalafol yn buddsoddi er cyfoethogi'i hunan. Mae'r cefnogwr cydweithredol yn buddsoddi er cyfoethogi'r gymdeithas.

Mae un gwahaniaeth pwysig arall. Yn y cwmni cyfalafol mi fydd gan rywun sydd wedi prynu llawer o gyfrannau fwy o lais na rhywun sy'n meddu ar ond ychydig. Yn y cwmni cydweithredol mae gan y cyfranddalwr bach gymaint o lais a'r cyfranddalwr mawr. Un bleidlais sydd gan bawb a phobun yn ddi-wahân a'r un hawl i gyfrannu at y broses o greu syniadau a chymryd penderfyniadau.

WHAT'S THE DIFFERENCE BETWEEN A CO-OPERATIVE AND A CAPITALIST VENTURE?

It's the relationship with community that makes the difference. Making a profit is an aim shared by both ventures. The capitalist venture's prime responsibility is to benefit its shareholders. The co-operative's prime responsibility is to benefit the community (either by re-investing in the venture or contributing towards needs in the wider community). The capitalist shareholder invests for the purpose of self-benefit. The co-operative shareholder invests for the benefit of the community.

There's also one other important difference. In the capitalist venture the large shareholder will have a significantly stronger voice than the small shareholder. In a co-operative venture there is no differentiation between shareholders. Irrespective of the amount they have invested each and every investor has one vote and an equal entitlement to contribute to the process of creating ideas and making decisions.